Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Enfys Howells
Ysgol Bro Ingli
Long Street
Newport
Pembrokeshire
SA42 0TL

18/02/2025

Annwyl Enfys Howells,

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Ingli yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyffredinol ers eu harolygiad craidd ym mis Medi 2018. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion blaenoriaethau eu cynllun gwella cyfredol.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliad ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu medrau darllen disgyblion er mwyn gwella'u rhuglder a meithrin eu mwynhad at destunau amrywiol, gan gydweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni**

- Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth gytûn ynglŷn â sut i ddatblygu medrau darllen disgyblion. Maent yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn eu medrau yn rheolaidd ac yn monitro effaith eu dulliau addysgu darllen mewn trafodaethau proffesiynol cyson.
- Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth staff am ystod o ddulliau datblygu medrau darllen. Maent yn myfyrio, trafod a datblygu cyd-ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio cynlluniau perthnasol er budd a chynnydd disgyblion. Mae staff yn barod i addasu eu dulliau addysgu gan anelu at ddarparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfnodau dyddiol sy'n sicrhau cyfleoedd rheolaidd i disgyblion fireinio a gwella eu medrau darllen. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad effeithiol o ddarllen unigol, darllen digidol, gweithio mewn grŵp a darllen gydag aelod staff. Gyda'i gilydd, mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen i bwrpas ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am wahanol gyd-destunau dysgu.
- Mae athrawon wedi cydnabod yr angen i ddisgyblion arfer ac adeiladu ar eu medrau darllen gartref. Maent yn defnyddio rhaglen ddigidol bwrpasol sy'n cofnodi datblygiad disgyblion yn eu medrau darllen ac yn cynnig cyswllt cyson gyda rhieni. Mae llawer o rieni yn defnyddio'r rhaglen hon yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am frwdfrydedd eu plant wrth ddarllen gartref.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwrando ar storïau cyfarwydd, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'u seiniau ac yn eu cyfuno'n llwyddiannus i adeiladu geiriau syml. Maent yn gyfarwydd â chwilio am lyfr ym mocs llyfrau'r dosbarth ac yn dechrau mwynhau darllen amrywiol destunau. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf fwynhau ac ymgolli mewn llyfrau mewn ardaloedd gwahanol o fewn yr amgylchedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio llyfrgell mewnol yr ysgol fel man i ddysgu, pori drwy llyfrau a dod o hyd i lyfrau sy'n ennyn eu diddordebau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae medrau darllen y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Maent yn llwyddiannus wrth ail-ddweud stori ac yn cydweithio'n dda mewn grŵp wrth osod lluniau mewn trefn er mwyn creu rhediad synhwyrol cyn ymdrechu i'w hysgrifennu. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos rhuglder naturiol wrth ddarllen, yn cyflwyno'r testun gyda mynegiant aeddfed ac yn newid tôn y llais yn effeithiol.
- Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer yn adeiladu ar eu medrau'n briodol. Maent yn darllen yn gynyddol hyderus yn y ddwy iaith, yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn deallus, ac yn datgymalu ac adeiladu'r geiriau er mwyn gwella rhuglder y darllen. Ar y cyfan, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o'r testun ac yn trafod y cynnwys llyfrau yn synhwyrol.
- Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn dwyn i gof gwybodaeth berthnasol am gynnwys storïau blaenorol o'r un gyfres ddarllen. Ar y cyfan, maent yn mynegi'r un hoffter at ddarllen yn y dwy iaith, yn trafod awduron a dehongli'r testun yn briodol. Er hyn, nid ydynt bod tro yn dangos dealltwriaeth ddigon cadarn o nodweddion elfennol llyfrau fel cymeriad, broliant a dyfynodau siarad.
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd rheolaidd o'r llyfrgell leol er mwyn cynnal eu diddordeb mewn amrywiol destunau darllen. Mae'r disgyblion hyn yn dangos mwynhad at ddewis llyfr ac yn ymfalchïo yn y cyfle o gael cyfnewid llyfrau yn gyson.

- **Datblygu gweit drefnau cynllunio, olrhain ac asesu ymhellach er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson**

- Mae'r pennaeth a'r staff yn cydweithio'n fwriadus er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i sicrhau bod gan staff y medrau i arwain a chynllunio cwricwlwm. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn datblygu ar eu dealltwriaeth a gwybodaeth o'r cwricwlwm wrth gefnogi'r disgyblion i gyflawni'n dda. Yn gyffredinol, mae'r broses gynllunio'n parhau i esblygu wrth i arweinwyr werthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion.
- Mae staff yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm sy'n anelu at ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn eu gweithgareddau. Mae'r themâu tymhorol yn cael eu cyflwyno i bod dosbarth ar draws yr ysgol sy'n sicrhau fod disgyblion yn dysgu am gyd-destunau dysgu cyson. Mae disgyblion yn cael mewnbwn perthnasol i'r broses gynllunio yn ehangach wrth ddechrau dysgu o fewn y themâu hyn. Mae'r sesiynau 'Bant a'r cart', sef cyfleodd i ddisgyblion werthfawrogi nodweddion neu agweddau penodol o fewn eu hardal leol, yn gyfrwng effeithiol iddynt ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau ymhellach.

- Wrth i staff ddefnyddio cynlluniau buddiol a dulliau addysgu'n gyson, mae'r disgyblion ieuengaf yn meithrin a datblygu eu medrau yn dda, yn enwedig eu medrau llafar. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae staff yn cefnogi'r disgyblion hŷn i ymestyn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu yn fwriadus. At ei gilydd, mae staff yn dueddol o or arwain y dysgu sy'n arafu cynnydd ym medrau dysgu annibynnol y disgyblon. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob tro yn llwyr ymgolli yn eu dysgu nac yn cyflawni hyd orau eu gallu tra'n cymhwyso eu medrau i wahanol feysydd.
- Mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn eu cefnogi i ymestyn eu hymatebion gan ddefnyddio greirfa a phatrymau Cymraeg yn gynyddol gywir. Maent yn darparu adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n briodol. Mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig perthnasol sy'n arwain y disgyblion at eu camau nesaf yn eu dysgu yn addas. At ei gilydd, mae disgyblion yn gyfarwydd gyda'r gefnogaeth a roddir gan athrawon wrth iddynt ymateb i'w gwaith. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob tro yn deall sut a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi cysoni'r arfer o fwydo gwybodaeth berthnasol am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion o fewn agweddau penodol fel 'agweddau ac ymdrech at waith', 'llythrennedd a rhifedd' a 'cynnydd a chyrhaeddiad'. Mae'r arfer hwn yn galluogi athrawon i gynllunio'r ystod a'r ehangder berthnasol o fewn y meysydd dysgu er mwyn cefnogi disgyblion i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Wrth olrhain cynnydd disgyblion unigol, caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n fuddiol wrth i athrawon gynllunio gweithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ymhellach. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agweddau priodol at eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau yn unol a'u cam datblygu.
- Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan athrawon am gynnydd a chyrhaeddiad eu plant trwy ddulliau buddiol. Mae hyn, ynghyd â chyflwyno gwybodaeth i rieni, er enghraifft am rifedd, yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref ymhellach.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr Ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682243](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682243)

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol